*Walkers' Wood*

*Gallech chi ddadlau mai neges amgylcheddol sydd i'r gerdd 'Walkers' Wood'. Drwy gwestiynau ei fab mae'r tad yn cyfeirio at harddwch byd natur, at y goeden gollen yn colli ei dail ac yn 'rhannu ei gofidiau gyda'r lli', dail y ffawydd 'run lliw â cheiniog newydd' yn cael eu colli o bwrs y goeden, dail y dderwen 'fel darnau o jig-sô'. Mae'n ddarlun rhamantus o ogoniant natur. Mewn gwrthgyferbyniad llwyr i'r harddwch naturiol a lliwiau'r hydref gwêl y mab y paced o 'Walkers' Crisps' yn 'wyrdd a glas,' yn 'sgleinio yn y mwd'. Pwysleisia mor ddiofal y gall pobl fod, yn anharddu ac yn difetha eu cynefin naturiol.*

*Ar y llaw arall, gallech chi ddweud mai symbol o ddylanwad estron yw'r 'paced o 'Walkers' Crisps'. Dydy o ddim i fod yn y goedwig. Mae wedi newid y goedwig er gwaeth. Mae'r bardd yn awgrymu mai dyma mae twristiaid yn ei wneud i'w ardal ef hefyd. Maent yn newid enwau Cymraeg hynafol, fel Coed Llugwy i Walkers' Wood:*

> *'Coed Llugwy ydi'r enw arnynt, was,*
> *Ond 'Walkers' Wood' sydd yn y 'Betws Guide'.'*

*Gwelir y newid enw, fel y gollwng sbwriel, fel arwydd o ddiffyg parch tuag at yr ardal a'i thraddodiadau.*

*Teimlaf fod y ddwy neges yn atgyfnerthu ei gilydd. Mae'n ddyletswydd arnom i amddiffyn a gwarchod ein cymunedau rhag unrhyw beth sy'n mynd i'w difetha, boed hynny yn amgylcheddol, neu'n ieithyddol a diwylliannol.*

Pa fath o ysgrifennu yw hwn? Eglurwch pam eich bod yn dweud hyn.

Casglwch y geiriau cadarnhaol a'r geiriau negyddol a geir yn y paragraff cyntaf.

Pa ymadrodd yn yr ail baragraff sy'n awgrymu safbwynt gwahanol?

Beth yw agwedd awdur y darn hwn?

Pa amser o'r ferf sy'n cael ei defnyddio yma? Nodwch enghreifftiau.

Pa nodweddion arddull sy'n cael eu dyfynnu yn y paragraff cyntaf? Eglurwch nhw.

Labelwch y tri pharagraff i ddangos nodweddion y math o ysgrifennu.

Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd yma i gadarnhau'r safbwynt?

GwE
YSGOL BOTWNNOG
YSGOL DYFFRYN OGWEN
YSGOL TRYFAN
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government